**Adran Theatr – Cystadleuaeth 414. Beirniad – Lowri Hughes**

**1af. Buddug (414/2) – "Tair Cadair a Gwely"**

**2il. Lleucu Llwyd (414/4) – "Fi sydd ar fai!"**

**3ydd. Alexa Jones (414/1) – "Diwrnod Cynlluniedig i'r Traeth"**

Daeth pump drama fer i law eleni. O'r darlleniad cyntaf 'roedd hi'n amlwg bod "Tair Cadair a Gwely" gan Buddug ben ac ysgwydd uwchlaw y sgriptiau eraill, ond teimlwn bod cryn addewid yn perthyn i bob un o'r ymdrechion. Mae "Tair Cadair a Gwely" yn ddrama fer gyfoes, grafog, gaboledig, a'r dramodydd ifanc yn arddangos aeddfedrwydd a gallu diamheuol i greu theatr apelgar a chyffrous.

Wrth ystyried yr ymgeiswyr eraill yr hyn oedd yn galonogol oedd bod pawb yn arddangos gwreiddioldeb, ac o dalu mwy o sylw i elfennau megis strwythr, dull llwyfannu ac adeiladwaith cymeriadau a'u perthynas â'i gilydd, gall pob un a ymgeisiodd eleni greu drama fyddai'n cyrraedd y brig mewn cystadleuaeth o'r math hwn.

Gall pob un ohonoch elwa o feddwl yn fwy ymarferol am yr hyn yr ydych yn ei ysgrifennu. Cofiwch ystyried sut y bydd y digwydd yn eich drama yn cael ei gyfleu ar y llwyfan. Y ffordd orau o ehangu eich gwybodaeth ynglŷn â hyn yw trwy fynd i'r theatr a darllen dramâu. Cofiwch hefyd y dylid darllen eich gwaith yn uchel i chi'ch hun cyn danfon sgript i gystadleuaeth. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad oes gwallau ieithyddol, teipio ac atalnodi, ond yn bennaf mae'n gyfle i'ch clust chi bwyso a mesur a ydi'r sgript yn llwyddiannus? Byddwch yn llym wrth olygu ac yn ddisgybledig wrth ddethol a dewis pob un gair. Diolch i chi i gyd am gystadlu.

**"Tair Cadair a Gwely" gan "Buddug" (1af)**

Drama fer afaelgar oedd yn hoelio'r sylw o'r dechrau. 'Roedd y manylion llwyfannu a'r disgrifiad o'r cymeriadau yn creu darlun clir yn fy meddwl – teimlwn yn hyderus cyn dechrau darllen y sgript bod cyw-dramodydd gyda gweledigaeth bendant a chrebwyll sicr o grefft y llwyfan ar waith, ac ni chefais fy siomi.

O baragraff agoriadol "Y Wraig" hyd at y diwedd mae'r ysgrifennu yn rhythmig a choeth. Mae adeiladwaith gywrain yr ymson yn llwyddo i ennyn diddordeb, a phresenoldeb (tawel) y ferch yn ddelweddol gryf. Mae'r gwaith yn gryno a chaboledig. Mae ôl golygu ar y gwaith, mae'n amlwg bod yr awdur wedi ystyried a ydi pob un gair yn haeddu ei le – disgyblaeth sy'n gwbl hanfodol er mwyn creu theatr o safon. Wedi dweud hyn teimlwn bod unig eiriau "Y Ferch" yn rhy niferus. Yn fy nhyb i gellid fod wedi pwysleisio'r gwrthgyferbyniad trwy gyfleu ei awydd i gyd-eistedd trwy gyfrwng un gair neu ystym yn unig.

Teimlwn bod y thema dan sylw yn gyfoes ac ymdriniaeth yr awdur ohoni yn grafog, hoffais y diweddglo'n fawr – elfen bwerus o'r ddrama fyddai'n sicrhau bod cydwybod aelodau'r gynulleidfa yn cael ei brocio wrth adael y man perfformio.

Llongyfarchiadau a phob hwyl gyda'r sgriptio yn y dyfodol.

**"Fi sydd ar fai!" gan Lleucu Llwyd (2il)**

Hoffwn fwy o fanylion ynglŷn â'r cymeriadau a disgrifiad o'r set/llwyfan ar y dechrau – mae hyn yn help i'r darllennydd/beirniad ond yn fwy na dim yn gymorth mawr i'r sgriptiwr sicrhau ei fod wedi meddwl digon am ffurf y cymeriadau, y set a'r dull llwyfannu.

Mae hi'n amlwg iawn o'r dechrau bod y dramodydd ifanc hwn yn gallu ysgrifennu deialog naturiol, rhythmig, gyfoes. Mae enghraifft ardderchog o hyn yng ngolygfa 3 wrth i Sophie gyhuddo Jac. Hoffais y defnydd o frawddegau byr, bachog trwy gydol y ddrama. Er.hyn, mae'n rhaid sicrhau nad ydi camgymeriadau sillafu, teipio ac atalnodi yn amharu ar lif y sgript. Mae'n gwbl hanfodol bod sgript wedi ei ysgrifennu mewn modd lafar, ond tydi hynny ddim yn esgus dros gamgymeriadau blêr, ac yn anffodus mae rheiny yn frith yma.

Hoffais y cymeriadau yn fawr, 'roedd y broses o ddod i'w hadnabod trwy gyfrwng y gyfres o olygfeydd byr, dramatig, yn un ddiddorol iawn. 'Roedd strwythr y ddrama hefyd yn ardderchog – y "twist" annisgwyl ar y diwedd yn gweithio'n grêt, ac yn hynod o wreiddiol (sy'n gamp aruthrol!).

Teimlwn bod angen manylu mwy am y llwyfannu ar adegau e.e. y crash yng ngolygfa un (ac 8). Does dim awgrym o gwbl sut y byddai'r ddamwain yn cael ei gyfleu, ac er y gellid dadlau mai cyfrifoldeb y cyfarwyddwr fyddai dehongli hynny, yn fy nhyb i byddai ystyried sut y byddai goleuo/sain/symud/effeithiau arbennig yn gallu cyfleu y digwyddiad yn gymorth i ehangu a datblygu sgiliau'r dramodydd ifanc.

Diolch am gystadlu a phob hwyl gyda'r sgriptio yn y dyfodol – Dal ati... mae dy syniadau di yn wreiddiol a chyffrous iawn!

**"Diwrnod cynlluniedig i'r traeth." Gan Alexa Jones (3ydd)**

Hoffwn fwy o fanylion ynglŷn â'r cymeriadau a disgrifiad o'r set/llwyfan ar y dechrau – mae hyn yn help i'r darllennydd/beirniad ond yn fwy na dim yn gymorth mawr i'r sgriptiwr sicrhau ei fod wedi meddwl digon am ffurf y cymeriadau, y set a'r dull llwyfannu.

Mae gan y dramodydd ifanc hwn y gallu i ysgrifennu deialog dafodieithol, rhythmig, a chyfoes. Gwelir enghreifftiau ardderchog o hyn trwy gydol y ddrama, ond hoffwn dynnu sylw arbennig at y sgwrs rhwng y tri chymeriad ar dudalen dau. Er bod y ddeialog yn gryfder mawr mae'n rhaid sicrhau nad ydi camgymeriadau sillafu, teipio ac atalnodi yn amharu ar lif y sgript. Mae'n gwbl hanfodol bod sgript wedi ei ysgrifennu mewn modd lafar, ond tydi hynny ddim yn esgus dros gamgymeriadau blêr, ac yn anffodus mae rheiny yn niferus iawn.

Teimlwn bod y cymeriadau wedi eu creu yn gelfydd, a'r berthynas rhyngddynt wedi ei ddiffinio yn bendant. 'Roedd dfenydd da o hiwmor yn y sgript hefyd. Hoffais y defnydd o ymsonau, gyda'r dechneg o siarad yn uniongyrchol gyda'r gynulleidfa yn effeithiol iawn wrth i ni ddysgu bod byd o wahaniaeth rhwng yr hyn y mae'r cymeriadau yn ei "deimlo go iawn" a'r hyn y manet yn ei ddweud wrth y cymeriadau eraill.

Pob hwyl gyda'r sgriptio yn y dyfodol – Dal ati... hoffais y syniad yn fawr, llwyddaist i gyfleu thema bwysig a chyfredol mewn modd trawiadol. Diolch am gystadlu.

**"Yr Ogof" gan Aderyn Glas**

Hoffwn fanylion ynglŷn â'r cymeriadau (Oed, perthynas â'i gilydd, personoliaeth) a disgrifiad o'r set/llwyfan ar y dechrau – mae hyn yn help i'r darllennydd/beirniad ond yn fwy na dim yn gymorth mawr i'r sgriptiwr sicrhau ei fod wedi meddwl digon am ffurf y cymeriadau, y set, a'r dull llwyfannu cyn dechrau ysgrifennu'r sgript.

Ymdrech dda i greu deialog lafar, naturiol ond mae llawer o'r brawddegau yn rhy hir. Mae hi'n bwysig iawn darllen sgript yn uchel er mwyn gweld os ydi'r ddeialog yn llifo'n rhwydd neu beidio. Yn yr un modd dylid sicrhau nad oes gwallau sillafu, teipio ac atalnodi.

Llwyddwyd i greu gwrthdaro rhwng y cymeriadau ar sawl achlysur ac adeiladwyd tyndra yn effeithiol ar adegau e.e. pan oedd Bethan a Tomos yn yr ogof.

Teimlwn bod angen manylu mwy am y llwyfannu ar adegau e.e. Sut y byddai'r ogof yn cael ei gyfleu? A'r cyfarwyddyd llwyfan ar dudalen 4 – *(Mae'r ddau yn cerdded dros y mynyddoedd i chwilio am gysgod).* Er y gellid dadlau mai cyfrifoldeb y cyfarwyddwr fyddai dehongli hynny, yn fy nhyb i byddai ystyried sut y byddai goleuo/sain/symud/effeithiau arbennig yn gallu cyfleu y mynydd a'r ogof yn gymorth i ehangu a datblygu sgiliau'r dramodydd ifanc.

Hoffais y llinnell olaf yn fawr!

Diolch am gystadlu, a phob hwyl gyda'r sgriptio yn y dyfodol – Dal ati, mae gen ti syniadau da iawn!

**"Y Broblem Fawr" gan Aderyn Pinc**

Hoffwn ddisgrifiad o'r set/llwyfan ar y dechrau – mae hyn yn help i'r darllennydd/beirniad ond yn fwy na dim yn gymorth mawr i'r sgriptiwr sicrhau ei fod wedi meddwl digon am ffurf y cymeriadau, y set, a'r dull llwyfannu cyn dechrau ysgrifennu'r sgript.

Mae yma ddeialogi rhythmig, llafar a llawn tyndra o'r cychwyn sy'n dangos addewid mawr. Gwelir enghraifft ardderchog o hyn yn ystod y sgwrs ffôn yng ngolygfa 2. Er hyn, teimlwn bod gwallau sillafu ac atalnodi yn amharu ar lif y ddrama.

Er fy mod yn hoffi strwythr y ddrama gyda datblygiadau cyflym a chyffrous teimlwn bod rhai o'r golygfeydd yn rhy fyr. Teimlwn bod gormod o linynnau storiol wedi eu cynnwys a petai'r awdur wedi datblygu un neu ddwy o themau/storiau yn hytrach na cheisio datblygu a jyglo llond llaw ohonynt mi fyddai'r ddrama wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus. Gwelir enghraifft berffaith o hyn yng ngolygfa 4 – Mae'r cymeriadau a'r berthynas rhyngddynt yn ddifyr iawn, ond hoffwn fod wedi clywed llawer mwy o'r sgwrs rhyngddynt. Yn sgil y nifer gormodol o bynciau/themau dan sylw 'roedd bron yn amhosib' creu diweddglo oedd yn clymu'r cyfan mewn modd credadwy a hynny o fewn y chwarter awr penodedig.

Diolch am gystadlu a phob hwyl gyda'r sgriptio yn y dyfdodol – Dal ati, 'rwyt ti'n dda iawn am ysgrifennu deialog ac mae'n amlwg bod gen ti lwythi o syniadau!